# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **9 Mawrth 2021** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dilwyn Morgan** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Cynnydd Panel Strategol Diogelu 2018-2020** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad gerbron ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Mae'n hanfodol bod aelodau'r Cabinet yn ymwybodol o waith y Panel ar ddiogelu ac yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol.

2.2. Mae gofyn i'r Cyfarwyddwr Statudol i adrodd yn gyson a rheolaidd i aelodau ar faterion diogelu.

### 3. CYFLWYNIAD

3.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni gan y Panel Strategol Diogelu yn ystod y cyfnod Rhagfyr 2018 – Rhagfyr 2020.

3.2. Credir i'r adroddiad grynhoi gwaith y Panel Strategol Diogelu yn gywir a theg, ac y mae hefyd yn cynnwys cyfeiriadau at adroddiadau neu sylwadau gan archwilwyr allanol ar y gwaith hwn.

3.3. Bu 2020 yn flwyddyn wahanol iawn i'r arfer i bawb, gydag effeithiau Covid-19 yn bell-gyrhaeddol. O'r herwydd, mae'r adroddiad hwn yn hwyrach na'r arfer yn cael ei gyhoeddi, gan fod nifer o staff y Cyngor wedi eu harall-gyfeirio i weithio'n cefnogi ein cymunedau. Mae'r adroddiad hwn felly'n adrodd ar waith dros gyfnod o 2 flynedd yn hytrach na blwyddyn. Mae'r gwaith hanfodol o ddiogelu ein trigolion wedi parhau wrth gwrs, dim ond y dasg o adrodd ar y gwaith hwnnw sydd wedi ei oedi.

### 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1. Dim i'w nodi.

## 5. Barn y Swyddogion Statudol:

### i) Y Swyddog Monitro:

Fel aelod o’r Panel rwy’n croesawu’r adroddiad sydd yn grynodeb priodol o’r gwaith. Mae’n gyfrwng i roi sicrwydd i’r Cabinet ynglŷn â’r cyfrifoldeb allweddol yma.

### ii) Y Pennaeth Cyllid:

Deallaf nad yw derbyn yr adroddiad yma’n ymrwymo’r Cyngor i unrhyw wariant newydd/ychwanegol.

## 6. Atodiadau

Adroddiad Panel Strategol Diogelu 2018-2020

**7.**